

**Draenio'r Glust Ganol a Gosod
Gromed**

**Cyngor i Achosion Dydd wrth iddynt Adael yr Ysbyty wedi cael Draenio'r
Glust Ganol a Gosod Gromed**

Gan eich bod wedi cael anesthetig cyffredinol heddiw dylech fwyta bwyd ysgafn ac osgoi diodydd pigog am y diwrnod fel nad ewch yn sâl. Dylech fynd adref yn syth o'r ysbyty ac ymlacio heddiw ac yfory

Poen:

Nid yw gromedau'n tueddu i fod yn boenus iawn. Dylai tabledi lladd poen syml megis paracetamol fod yn ddigon am yr ychydig ddyddiau cyntaf

Llif o'r Glust:

Mae'n gyffredin cael rhyw gymaint o lif gwaedlyd o'r glust yn yr ychydig ddyddiau cyntaf wedi'r llawdriniaeth. Pe bai'r llif yn dechrau drewi neu droi'n felyn/gwyrdd ei liw wedi'r llawdriniaeth, mae'n debygol fod haint yn y glust. Bydd angen cwrs o ddiferion clust gwrthfotig gan eich meddyg teulu er mwyn cael gwared â'r haint.

Rhagofalon dŵr:

Wedi'r llawdriniaeth, cynghorir cadw'r clustiau'n sych. Y rheswm am hyn yw bod perygl i ddŵr basio trwy'r twll bychan yn y gromed gan arwain at haint. Pan fyddwch yn y bath neu'r gawod, rhoddwch ychydig o wllân cotwm yn rhan allanol y clustiau gan daenu ychydig o *Vaseline* ar y tu allan i'r gwlân cotwm. Bydd hyn yn cynorthwyo i gadw'r glust yn sych. Os bydd popeth yn iawn wedi i chi fod i gael gweld a yw'ch clustiau'n iawn am y tro cyntaf ers y llawdriniaeth, gallwch ddechrau fynd i nofio. Fodd bynnag, peidiwch â phlymio na mynd dan y dŵr. Dylai nofwyr brwd ystyried cael gwneud plygiau clustiau i fesur (gofynnwch yn eich apwyntiad dilynol).

Ailgydio mewn gweithgareddau dyddiol:

Fel arfer, gallwch chi/eich plentyn ddychwelyd i'r gwaith/ysgol dri diwrnod wedi'r llawdriniaeth. Os oes angen nodyn salwch arnoch, gofynnwch i'r nyrs staffio am un cyn gadael yr ysbyty. Nid yw gromedau'n peri unrhyw broblem gyda hedfan.

Camau dilynol:

Dylech gael apwyntiad dilynol oddeutu 6-8 wythnos wedi'r llawdriniaeth. Bryd hynny, byddir yn gwrando ar lefelau eich clyw ac yn edrych ar eich clustiau. Os nad oes problemau na phryderon, byddwch yn cael eich rhoi yn ôl i ofal eich meddyg teulu.

Bydd rhaid i'ch meddyg teulu edrych ar eich gromedau 18 mis wedi'ch llawdriniaeth (ac eithrio gyda thiwbiau T/ gromedau hirhoedlog). Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod eich clustiau'n iach a bod y gromedau wedi gwthio allan. Pe bai'r gromedau'n parhau i fod yn nrwm y glust bryd hynny, argymhellir eu bod yn cael eu tynnu gan arbenigwr y Glust, y Trwyn a'r Gwddf.

GWYBODAETH AM ADAEL YR ADRAN DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYD

Cyn 18:00: Cysylltwch â'r Uned Llawdriniaeth Ddydd ar 01633 234199 / 01633 234196

Ar ôl 18:00/dros nos: Ward C0 ar 01633 493926

Ward C1 ar 01633 493609 (**plant**).

Pe ceid argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Bryd agosaf

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English"